**ADRODDIAD I'R CABINET**
**16 Gorffennaf 2013**

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Sian Gwenllian

**Pwnc:** Ad-drefnu ysgolion yn nhref Dolgellau

**Swyddog cyswllt:** Iwan T Jones – Cyfarwyddwr Corfforaethol

## Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad

Pwrpas yr adroddiad hwn ydyw rhoi cefndir a diweddariad i'r Cabinet ynglŷn â thrafodaethau ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Dolgellau. Ceisir penderfyniad y Cabinet ar y canlynol;

i. Cefnogaeth i'r weledigaeth amlinellol ar gyfer y dalgylch,
ii. Penderfyniad y Cabinet ar gynnal ymgynghoriad statudol ar y modd gorau o ddarparu addysg yn nhref Dolgellau i'r dyfodol, ac ystyriaethau yn ymwneud â mater technegol statws cyfreithiol y model gynigir,
iii. Penderfyniad ar natur y buddsoddiad i gyd-fynd â'r datblygiad yn nhref Dolgellau.

## Barn yr aelodau lleol

Bydd unrhyw sylwadau yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod.

## 1. CEFNDIR

1.1. Yn unol â Strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* cychwynnwyd ar y trafodaethau ynglŷn â darpariaeth addysg yn nalgylch Y Gader, Dolgellau ers 2010.

1.2. Yn yr adroddiad yma, cyflwynir y canlynol;
- Cefndir y trafodaethau hyd yma yn nalgylch Y Gader a thref Dolgellau yn benodol, a'r achos dros newid (Rhannau 1 a 2);
- Cynnig gweledigaeth amlinellol ar gyfer y dalgylch (Rhan 3);
- Yna – gofynnir i'r Cabinet ystyried 3 mater penodol ar gyfer darparu addysg yn nhref Dolgellau i'r dyfodol:
    i. Pwyso a mesur opsiynnau gwahanol ar gyfer symud y drafodaeth yn nhref Dolgellau. Rhoddir argymhelliad o'r opsiwn ffafredig ar gyfer ymgynghoriad statudol (Rhan 4 a 5),
    ii. Ystyriaethau ac opsiynnau technegol a chyfreithiol ar y modd o wireddu'r opsiwn ffafredig (Rhannau 6, 7 ac 8),
    iii. Opsiynnau buddsoddi posib i gyd-fynd â'r cynnig (Rhan 9).

1.3. Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cyngor Llawn Gorffennaf 14, 2011 ynglŷn ag Ad-drefnu Ysgolion Dalgylch Y Gader. Mae'r adroddiad yn gyd-destun pwysig i'r adroddiad yma a ceir copi yn Atodiad 1 (gyda chopïau o bapurau eraill perthnasol ar safle we y Cyngor) Penderfynodd y Cyngor yn y cyfarfod hwnnw;

i. Yn ddarostyngedig i benderfyniad ar leoliad arfaethedig yr ysgol, ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 28 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ystod tymor Hydref 2011 ar y bwriad o sefydlu Ysgol Gymuned Ardal aml-safle 3-11 oed gydag un safle'r ysgol ar leoliad presennol Ysgol Dinas Mawddwy a'r safle arall naill ai ar leoliad presennol Ysgol Brithdir neu Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain i agor 1 Medi 2013.
ii. Er sefydlu'r Ysgol Ardal arfaethedig, ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ystod tymor Hydref 2011 ar gau Ysgolion Llanfachreth, Dinas Mawddwy, Brithdir ac Ysgol Ieuan Gwynedd ar 31 Awst 2013.
iii. Dirprwyo i Fwrdd y Cyngor gan gynnwys hefyd ymgynghori â'r aelod/au lleol, y penderfyniad ar leoliad yr Ysgol Ardal arfaethedig ar gyfer ymgynghori, naill ai ar safle presennol Ysgol Brithdir neu ar safle presennol Ieuan Gwynedd.
iv. Cefnogi'r bwriad o ymgynghori ar yr egwyddor o sefydlu Cymuned Ddysgu (Ysgol) Gydol Oes aml-safle 3 – 16 oed yn nhref Dolgellau i agor ar 1 Medi 2013.
v. Dirprwyo'r penderfyniad ar statws cyfreithiol y Gymuned (Ysgol) Ddysgu Gydol Oes 3 – 16 oed arfaethedig i Fwrdd y Cyngor er mwyn caniatáu ymgymryd â gwaith pellach gan gynnwys ystyried yr opsiynau o gau ac ail agor yr ysgolion neu greu Ysgol Ffederal ynghyd â sefydlu'r drefn ymgynghori statudol briodol ar gyfer symud y broses ymlaen.

1.4. Aethpwyd ymlaen i ymgynghori'n statudol ar y bwriad o wireddu'r cynllun yn ardal Brithdir a Dinas Mawddwy gan adrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn yn Rhagfyr 2011. Oherwydd fod gwrthwynebiadau wedi eu derbyn trosglwyddwyd y mater i'r Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru am benderfyniad terfynol. Ym mis Tachwedd 2012 cafwyd penderfyniad o blaid y cynnig.

1.5. Yn y cyfamser, gwnaethpwyd gwaith manwl ar safle Ysgol Brithdir a daethpwyd ar draws problemau a rhwystrau sylweddol o ran datblygu safle Brithdir o safbwynt materion cynllunio a chostau. Ers cyfnod yr ymgynghori ac wrth ddatblygu'r dyluniadau, daeth yn amlwg y byddai'n anodd iawn derbyn caniatâd cynllunio. Nodwyd y byddai'n rhaid gostwng lefel y tir yn sylweddol ar gyfer adeiladu a hynny mewn ardal ble mae craig, a byddai cost sylweddol ynghlwm â hyn. Yn ystod yr un cyfnod daeth yn amlwg fod gofynion technegol y Llywodraeth wedi newid ac y byddai angen mwy o ofod yn yr estyniad. Canlyniad hyn ydyw fod yr hyn a ystyrir bellach yn wahanol i'r hyn dybiwyd adeg yr ymgynghori, a chynnydd yn y gost a risg sylweddol na fyddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi. Y pryder ydyw y byddai'r arian ychwanegol yn cael ei wario er mwyn goresgyn problemau peirianyddol y safle yn hytrach nag ar adnoddau addysg i ddisgyblion yr ardal.

1.6. Yn sgìl hyn daethpwyd i gasgliad na fydd y cynnig gwreiddiol yn cael ei weithredu a bydd rhaid datblygu cynllun arall.

1.7. Er bod consensws wedi bod o'r cychwyn ynglŷn â'r egwyddor o ymgynghori ar sefydlu Ysgol Ddilynol yn y dref – mae cryn oediad wedi bod yn symud y cynllun yn ei flaen oherwydd mater technegol yn ymwneud â statws cyfreithiol y sefydliad. Oherwydd yr oediad yma felly, cyflwynir y mater gerbron y Cabinet am benderfyniad.

1.8. Mae adolygiad o'r cynlluniau hyn ar gyfer y dalgylch wedi ei gynnal, a bu cyfarfod o gynrychiolaeth leol – Aelodau Lleol, Penaethiaid, Cadeiryddion Llywodraethwyr a chynrychiolaeth o'r Eglwys ar y 9fed o Fai 2013 i egluro'r oedi a thrafod y ffordd orau ymlaen. Mae dau gam amlwg yn cael eu cymryd i symud y mater yn ei flaen yn yr ardal;

i. Cyflwyno'r adroddiad hwn er mwyn cyfleu y weledigaeth a gofyn am ganiatâd y Cabinet i symud i gamau ymgynghori yn nhref Dolgellau
ii. Gwneud gwaith cefndirol sylweddol ar sefyllfa'r ardaloedd gwledig yn nalgylch Y Gader – gyda'r bwriad o gynnal trafodaeth pellach gyda cynrychiolwyr lleol yn fuan yn y tymor newydd ar ôl toriad gwyliau'r haf.

1.9. Cyd-destun pwysig arall wrth gwrs yw maint amlen yr arian cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y dalgylch yma. Ers cychwyn trafodaethau yn y dalgylch yma – mabwysiadwyd rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru o dan faner Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Drwy'r rhaglen honno – mae gan y Cyngor amlen o £3.6 miliwn ar gyfer y dalgylch yn ei gyfanrwydd. Bydd angen ystyried yn ofalus y modd gorau o'r defnydd o'r arian hynny ar gyfer y dalgylch yma ac asesu unrhyw ofynion ychwanegol tu hwnt i hynny.

## 2. Y SEFYLLFA YN NHREF DOLGELLAU A'R DALGYLCH EHANGACH

2.1. Mae gwybodaeth fanwl am ysgolion yr ardal yn Atodiad 2 - Gwybodaeth am y dalgylch.

2.2. Mae'r achos dros unrhyw newid yn y dalgylch wedi ei wneud mewn sawl fforwm eisoes. O ystyried bod cryn drafod eisoes wedi bod yn lleol a bod y mater hwn wedi ei drafod mewn fforymau democrataidd, mae consensws wedi ei ddatblygu dros amser fod angen newid. Mae'r achos dros newid yng nghyd-destun ehangach sefyllfa'r dalgylch.

2.3. Felly, o ystyried ffactorau penodol – gellid crynhoi yr achos dros newid yn nhref Dolgellau ble lleolir Ysgol Gynradd Dolgellau ac Ysgol Uwchradd Y Gader, fel a ganlyn;

2.4. Niferoedd a rhagolygon

2.4.1. Mae gostyngiad o 42% wedi bod yn niferoedd y disgyblion cynradd yn nhref Dolgellau yn ystod y 40 mlynedd diwethaf.

| | **Niferoedd [Meithrin – Bl.6 3-11 Oed]**<br>***Number [Nursery - Yr.6 Age 3-11]*** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol**<br>***School*** | **1975** | **1980** | **1985** | **1990** | **1995** | **2000** | **2005** | **2010** | **2012** | **1975-2012 twf /** ***growth*** | **1975-2012 % twf /** ***growth*** |
| Cynradd Dolgellau | 259 | 230 | 230 | 197 | 221 | 180 | 165 | 149 | 150 | -109 | -42% |

2.5. Mae rhagolygon niferoedd ar gyfer Ysgol Uwchradd Y Gader yn nodi lleihad mewn niferoedd i oddeutu 304 o ddisgyblion erbyn Medi 2015.

| | Rhagamcan Medi 2013 *September Projection* | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn Ysgol / *School Year* | | | | | |
| **YSGOL / *SCHOOL*** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** | Cyfanswm / *Total* |
| Y Gader | 59 | 68 | 76 | 97 | 69 | 369 |

| | Rhagamcan Medi 2014 *September Projection* | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn Ysgol / *School Year* | | | | | |
| **YSGOL / *SCHOOL*** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** | Cyfanswm / *Total* |
| Y Gader | 43 | 59 | 68 | 76 | 97 | 343 |

| | Rhagamcan Medi 2015 *September Projection* | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn Ysgol / *School Year* | | | | | |
| **YSGOL / *SCHOOL*** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** | Cyfanswm / *Total* |
| Y Gader | 58 | 43 | 59 | 68 | 76 | 304 |

## 2.6. Ansawdd Addysg

2.6.1. Yn ôl Arolygon diweddar gan Estyn, dyma'r ansawdd addysg yn bresennol;

| **Ysgol Y Gader** | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol** | **Canlyniad Rhagfyr 2010 *** |
| 1. Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
| 2. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
| 3. Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
| ** Graddfeydd o Ragorol i Anfoddhaol* | |

| **Ysgol Gynradd Dolgellau** | |
|---|---|
| ***Cwestiwn Allweddol*** | ***Mehefin 2009*** |
| 1. Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? | Gradd 2 |
| 2. Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? | Gradd 2 |
| 3. Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? | Gradd 2 |
| 4. Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr? | Gradd 3 |
| 5. Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol? | Gradd 3 |
| 6. Pa mor dda y mae'r arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? | Gradd 2 |
| 7. Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? | Gradd 3 |
| *Gradd 1 – Nodweddion Rhagorol / Gradd 5 – Diffygion Sylweddol* | |

2.6.2. Mae lleihad yn niferoedd yn y dalgylch yn peru pryder – o ran rhai o'r ysgolion cynradd yn yr ardal ac hefyd oblygiadau posib o ran y sector uwchradd, Daw yn fwy anodd cynnal cwricwlwm a chynnal safonau.

2.6.3. O fewn sefyllfaoedd o'r fath rhaid ystyried dulliau o gryfhau elfennau o gydweithio a sicrhau fod cyfundrefn effeithiol ar gyfer darparu addysg yn y dyfodol. Ystyrir dulliau gorau o sicrhau rheolaeth gydlynus a defnydd cynlluniedig gofalus o'r sgiliau staff i ysgwyddo cyfrifoldeb traws sector am feysydd cwricwlaidd penodol yn fodd i godi safonau, a gostwng y lefel o ddefnydd o staff sy'n gweithio y tu allan i brif faes eu harbenigedd.

2.7. Symudiadau disgyblion

2.7.1. Mae 30% o ddisgyblion sydd yn byw yn Nolgellau yn symud o'r dref i gael eu haddysg cynradd. Mae dros 200 o ddisgyblion cynradd yn byw yn nhref Dolgellau. 140 o'r disgyblion hyn sydd yn mynychu Ysgol Gynradd Dolgellau.

2.8. Llefydd gweigion

2.8.1. Mae dros 60 o lefydd gweigion yn yr Ysgol Gynradd Dolgellau (22%)

2.8.2. Mae dros 100 o lefydd gweigion yn Ysgol Uwchradd y Gader (30%)

2.9. Materion Eiddo

2.9.1. Mae Ysgol Gynradd Dolgellau ar ddwy safle – gyda phroblemau traffig a thrafnidiaeth sylweddol. Mae oddeutu £260,000 o waith ôl-groniad cynnal a chadw ar adeiladau'r safle yn ei gyfanrwydd.

2.10. Ni ellir edrych ar y sefyllfa yn dref heb ystyried cyd-destun ehangach y dalgylch. Yng ngweddill y dalgylch – mae 8 ysgol gynradd. Dyma'r darlun yng ngweddill y dalgylch – fel a ganlyn yn gryno:

2.10.1. Llefydd gweigion – Mae dros 41% o lefydd gweigion yn yr ysgolion gwledig – mae hyn gyfystyr â thros 160 o lefydd gweigion. Rhaid nodi hefyd – fod rhai ysgolion tros eu capasiti.

2.10.2. Dyraniad ariannol a rhwyd ddiogelwch – Cyfartaledd cost y pen yn ysgolion gwledig y dalgylch yw £6942 sydd yn llawer iawn uwch na'r cyfartaledd Sirol yng Ngwynedd - £3838. Mae'r ysgolion gwledig yn cael £160,000 o arian ychwanegol yn flynyddol ar ffurf y rhwyd ddiogelu.

2.10.3. Arweinyddiaeth o fewn yr ysgolion – Mae ymdrech fawr gan benaethiaid a staff yr ysgolion unigol i gynnal safonau. Mae'n anodd mewn ambell sefyllfa gan fod Penaethiaid mewn gofal o fwy nag un ysgol a threfniadau dros dro mewn sefyllfaoedd eraill.

2.10.4. Symudiadau Plant – Dyma un nodwedd amlwg o'r dalgylch yma. Mae symudiad mawr o ddisgyblion rhwng dalgylchoedd yr ysgolion. Nodwyd uchod am y symudiad o ddisgyblion o dref Dolgellau i'r ysgolion gwledig, ond mae symudiad rhwng yr ysgolion gwledig yn ogystal. Un enghraifft yw'r ffaith fod 32 disgybl yn Ysgol Y Clogau – ond 8 disgybl sydd yn byw yn Clogau. Daw 12 o Ddolgellau a rhai o Bermo a mannau eraill.

2.11. Wrth ystyried yr achos dros newid – rhaid ystyried hefyd cyfleon o ddatblygu a sefydlu model newydd ar gyfer ar gyfer y sefyllfa;

- Cyfleon i gryfhau'r ddarpariaeth addysg yn wyneb gostyngiad mewn niferoedd disgyblion
- Cyfleon i sefydlogi'r symudiad disgyblion sydd yn digwydd yn y dalgylch
- Cyfleon i wella cydweithio rhwng yr ysgolion a sicrhau fod cynllunio cydlynus fel nad oes dyblygu gwaith a sicrhau fod symudiad disgyblion yn llyfn o un cyfnod trosiannol i'r llall
- Cyfle i sicrhau fod ymarfer da ac arbenigedd yn cael ei rannu
- Cyfleon i ystyried dulliau o redeg cyfundrefnau yn fwy effeithlon

## 3. Y WELEDIGAETH

3.1. Fel nodir uchod, rhaid cofio fod datblygiad y drafodaeth hon ar adolygiad o ad-drefnu yn nalgylch Y Gader o fewn cyd-destun llu o drafodaethau a phenderfyniadau sydd eisoes wedi eu gwneud. Yn ystod y trafodaethau hyn, mae'r hyn ellid ei grisialu fel gweledigaeth amlinellol ar gyfer y dalgylch wedi ei ddatblygu ar gyfer y dalgylch. Nid yw'r weledigaeth hon yn rhagdybio unrhyw gynlluniau penodol all ddatblygu o ganlyniad i ymgynghoriadau fydd angen eu cynnal.

3.2. Hanfod y weledigaeth amlinellol fyddai anelu at sicrhau'r deilliannau canlynol;

- Profiadau teg i blant, sicrhau safonau addysg a chyfle cyfartal
- Mwy o rannu arbenigeddau rhwng ysgolion a sectorau
- Mwy o sefydlogrwydd yn yr ardal
- Mwy o gyfleon o ran datblygiad proffesiynol a chyfle i wella arweinyddiaeth
- Cyd-lynedd gwasanaethau cyhoeddus

3.3. Felly, mae gweledigaeth i ddatblygu canolfan addysg ganolog yn nhref Dolgellau a hynny yng nghyd-destun datblygiadau eraill yn y dref gan y Coleg (Grŵp Llandrillo Menai), sydd yn symudiad tuag at ddatblygu Dolgellau fel Canolfan Ddysg.

3.4. Mae dyhead i sicrhau darpariaeth addysg gadarn a chynaliadwy yn y dalgylch gyfan, a hynny ar draws yr holl sectorau. Bydd hyn yn golygu ystyriaeth i resymoli'r nifer, natur a statws yr ysgolion mewn rhai rhannau o'r dalgylch. O wireddu'r weledigaeth yn llawn golygai hyn y bydd modd cryfhau'r ddarpariaeth addysg yn nalgylch Y Gader drwy osod sylfaeni ar gyfer cydweithio, cyd-gynllunio a chyd-ddatblygu i'r dyfodol.

3.5. Nid oes penderfyniad ar hyn o bryd ynglŷn â manylion ffurf y darpariaeth ymhob rhan o'r ddalgylch gan y bydd hyn yn destun prosesau ymgynghori statudol ac ni ellir rhagfarnu'r prosesau hynny.

## 4. OPSIYNAU O FODELAU

4.1. Yn ystod trafodaethau cychwynnol a gynhaliwyd tua deunaw mis yn ôl yn y dalgylch, paratowyd rhestr hir o opsiynau posib ar gyfer ad-drefnu ysgolion y cylch, sydd yn cwmpasu:

- Gwneud dim
- Datblygu modelau o gydweithio
- Modelau o ysgolion ardal gwledig
- Cymuned Ddysgu neu Ysgol Gydol Oes

4.2. Mae'r wybodaeth ystyriwyd ym mhapurau cefndirol yr adroddiad hwn.

4.3. Pwrpas yr adroddiad yma yw ceisio symud y broses ymlaen ar gyfer tref Dolgellau. O ran opsiynau posibl gellid ystyried yr opsiynau canlynol ar gyfer darparu addysg yn nhref Dolgellau;

1) Gwneud dim
2) Canoli'r ddarpariaeth addysg y dalgylch mewn un campws yn nhref Dolgellau
3) Creu Ysgol Gydol Oes yn nhref Dolgellau.

4.4. **Gwneud Dim**

4.4.1. Nodwyd eisoes fod materion sydd angen sylw ar draws y dalgylch ac yn nhref Dolgellau. Mae ansefydlogrwydd o ran symudiad disgyblion cynradd allan o dref Dolgellau. Yn ogystal, mae dros 100 o lefydd gweigion yn yr ysgol uwchradd. Gwelir fod sicrhau darpariaeth addysg gref fel craidd gadarn i darpariaeth addysg yn y dalgylch yn hanfodol ac felly nad ydyw gwneud dim yr opsiwn gorau er mwyn sicrhau datblygiad cadarnhaol i ddarpariaeth addysg yn y dalgylch.

4.5. **Canoli'r ddarpariaeth addysg y dalgylch mewn un campws yn nhref Dolgellau**

4.5.1. Rhai o nodweddion y math yma o fodel fyddai datblygu a chanoli darpariaeth addysg yn nhref Dolgellau. Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i wireddu y fath gynllun. Nodwyd hefyd gyfleon y model;

- Lliniaru problemau gostyngiad mewn safonau yn y cyfnod trosglwyddo rhwng y sector cynradd ac uwchradd,
- Cyfle i ddefnyddio arbenigeddau ar draws y sectorau,
- Cyfle i rannu arfer da ar draws y sefydliad,
- Cyfle i ganoli cefnogaeth weinyddol a gwasanaethau cefnogol yr ysgol e.e. ffreutur

4.5.2. Yn ystod trafodaethau cychwynnol, gwnaed gwaith ymchwil sylweddol o ran opsiynau safleoedd ar gyfer datblygu un campws gydol oes yn Nolgellau. Wedi asesu nifer o safleoedd – 10 safle mewn manylder, daethpwyd i'r casgliad nad oedd modd cael un safle ar gyfer creu un campws dysgu gydol oes. Roedd hyn am resymau maint safleoedd, lleoliad

o ran perygl llifogydd, problemau mynediad ac eraill. Nid oes newid wedi bod yn y sefyllfa yma.

4.5.3. Pan drafodwyd y model yma yn lleol mewn Paneli Dalgylch, roedd anfodlonrwydd gyda'r model gan y byddai yn golygu canoli llawer o'r ddarpariaeth addysg i gyd neu bron iawn yn gyfan yn nhref Dolgellau. Nodir hefyd fel rhan o'r weledigaeth, y dyhead i gynnal darpariaeth addysg yn rhannau gwledig o'r dalgylch yma. Nodwyd pryderon o ran oblygiadau teithio mewn ardal mor wledig ac hefyd oblygiadau ar yr iaith a chymunedau. Mae diffyg safle ar gyfer y fath ddatblygiad yn golygu na ellid symud ymlaen â'r opsiwn yma ymhellach.

4.6. **Creu Ysgol Ddilynol yn nhref Dolgellau.**

4.6.1. Opsiwn arall ystyriwyd oedd datblygu sefydliad Ysgol Ddilynol (Ysgol Gydol Oes) yn nhref Dolgellau. Fel rhan o gynllun ehangach bydd angen datblygu cynigion eraill i sefydlogi'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd gwledig. O ran model – hwn yw'r model sydd wedi datblygu orau o'r trafodaethau dros gyfnod o amser a dyma'r model a ffefrir ar gyfer darparu addysg yn nhref Dolgellau i'r dyfodol.

## 5. YR OPSIWN A FFEFRIR I YMGYNGHORI ARNO - PAM ARGYMELL YSGOL DDILYNNOL YN NHREF DOLGELLAU?

5.1. Yn ystod trafodaethau ad-drefnu yn y Sir, mae'r model gydol oes wedi datblygu fel opsiwn posibl mewn rhai sefyllfaoedd. Bellach, rhoddir ystyriaeth i gynnwys sector uwchradd y dalgylch yn y trafodaethau wrth ystyried cynigion ar gyfer addysg gynradd. Ategir hyn gan ddogfen strategol "Tuag at 2025", sy'n datgan yn glir bod rhaid i'r drefn bresennol newid:
"*mae hi'n allweddol bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i ddefnyddio adnoddau yn y modd gorau posibl o fewn y gyfundrefn addysg a hyfforddiant - yn adnoddau dynol, technegol, adeiladol neu ariannol - a hynny er lles plant a phobl ifanc*".

5.2. Ystyriwyd materion yng nghylchlythyr y Llywodraeth a chôd newydd arfaethedig wrth edrych ar yr opsiynau fyddai yn creu yr amgylchiadau gorau i sicrhau dyfodol cadarn i gynnal a gwella ansawdd addysg yn nhref Dolgellau, ac hefyd sut orau yn y sefyllfa hon i wella effeithlondeb darpariaeth addysg.

5.3. Yn ystod trafodaethau cychwynnol y Panel Adolygu Dalgylch, mynegwyd dyhead cyffredinol i edrych ar y model hwn fel opsiwn i ymgynghori arno.

5.4. Cafwyd cydnabyddiaeth yn y Panel Adolygu y byddai creu model Ysgol Ddilynol yn fodd o gryfhau hyfywdra'r sector Uwchradd yn y Dalgylch, ond hefyd yn cynnig cyfleon addysgol ymarferol a strategol i sector cynradd y dref a'r dalgylch yn ehangach. Nodwyd fod newid yn niferoedd ysgol Y Gader yn peri pryder gyda'r rhagolygon yn nodi lleihad oddeutu 20% yn y blynyddoedd nesaf (o 380 yn 2013 i 304 yn 2015). Fel nodir uchod, aseswyd yr opsiwn ar amryw o ffyrdd yn cynnwys ystyriaeth datblygu darpariaeth ar gyfer holl blant a dalgylch o 3 i 16 mlwydd oed ar un campws ac hefyd ystyried sefydlu'r model ar gampws aml-safle. Ond fel nodwyd, mae problemau diffyg safle addas yn golygu na ellid symud ymlaen ymhellach â'r opsiwn o un campws canolog.

5.5. **Nodweddion y Model Ysgol Ddilynol.**

5.5.1. Mae tystiolaeth o rai ardaloedd o Brydain fod sefydlu trefniadaeth ddilynol **yn fodd o gynnal ffocws cynaliadwy i gymunedau gwledig**. Mae'n **fodd o warchod darpariaeth addysg wledig** yn wyneb costau uwch cynnal darpariaeth ble mae llai o ddisgyblion trwy gydlynu rheolaeth ysgolion.

5.5.2. Gall Ysgol Ddilynol roi **manteision cwricwlaidd** trwy greu ethos a disgwyliadau cyffredin i ddisgyblion, staff a rhieni trwy gynnal hyblygrwydd wrth gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm. Mae ymchwil yn dangos bod y cyfnod trosiannol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn heriol i blant ac mae cyrhaeddiad yn gyffredinol yn gwaethygu yn ystod y cyfnod hwn. O greu perthynas agosach rhwng y sector cynradd ac uwchradd, gellid lleihau ansicrwydd y cyfnod i blant.

5.5.3. Bydd **Ysgol Ddilynol yn caniatáu sefydlu strwythur rheolaeth newydd cydlynus** gyda chyfrifoldebau pendant ysgol gyfan am agweddau cwricwlaidd penodol megis llythrennedd, rhifedd a datblygiad TGCH. Bydd maint y tîm staff fel un uned yn sylweddol fwy, a bydd hyn yn ei dro yn golygu ystod ehangach o arbenigedd a defnydd mwy effeithiol o gryfderau unigolion o fewn y tîm. Bydd defnydd cynlluniedig gofalus o'r sgiliau staff i ysgwyddo cyfrifoldeb traws sector am feysydd cwricwlaidd penodol yn fodd i godi safonau, a gostwng y lefel o ddefnydd o staff sy'n gweithio y tu allan i brif faes eu cyfrifoldeb.

5.5.4. Byddai math o **gynllun partneriaeth cwricwlaidd dalgylchol** rhwng y sefydliad cynradd ac uwchradd yn nhref Dolgellau, a holl ysgolion eraill cynradd y dalgylch yn sicrhau cyfle cyfartal i ddisgyblion oed cynradd y dalgylch. Trwy gydweithio gofalus gellir sicrhau fod pob disgybl Cyfnod Allweddol 2 o fewn y dalgylch yn cael mynediad i adnoddau a'r profiadau a gynigir o fewn yr ysgol gydol oes gan gynnwys agweddau megis dysgu iaith fodern, y defnydd o adnoddau gwyddoniaeth, technoleg a chwaraeon. Bydd cydweithio rheolaethol mwy ffurfiol ar lefel dalgylch yn caniatáu i agweddau cwricwlaidd megis llythrennedd ac asesu yn ogystal ag agweddau rheolaethol megis cynnal a chadw, iechyd a diogelwch, cynlluniau arfarnu a rheoli perfformiad gael eu cynnwys o fewn un drefn gydlynus dalgylchol. Mae gwaith cefndirol ar ddatblygu'r cysyniad o sefydliad dilynol yn cael ei wneud gan Grŵp o Benaethiaid Cynradd ac Uwchradd a hynny o fewn y cyd-destun dalgylchol.

5.5.5. Gellid **cefnogi lles disgyblion** trwy leihau'r pryder wrth symud o gyfundrefn gyfarwydd y sector cynradd i'r sector uwchradd. Sefydlir gweithdrefn i gynnal disgyblion sydd yn addas i oedran ac anghenion disgyblion gan sefydlu perthynas hir dymor rhwng rhieni a staff.

5.5.6. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos fod perthynas agosach rhwng yr ysgol a rhieni, ac felly bod cymuned agosach yn cael ei sefydlu. Nodwyd mewn gwaith ymchwil yn yr Alban fod "...y berthynas gref gyda rhieni [yn un] sydd ai gwreiddiau yn aml mewn cysylltiadau a sefydlwyd yn ystod

blynyddoedd cynnar addysg plant" (*Learning Together HMIe (Alban), 2010*). Gall y fath berthynas ond fod yn beth iach i'r disgybl, ac yn wir, i'r gymuned yn ehangach.

5.5.7. Mae profiadau ardaloedd eraill yn dangos fod **cyfle i gefnogi teuluoedd** trwy ddarparu gwasanaethau integredig i gynnwys gwasanaethau iechyd, gofal plant, hyfforddiant i oedolion, ac ystod o wasanaethau eraill.

5.5.8. Gellid datblygu polisi iaith cynhwysfawr trwy'r sectorau cynradd ac uwchradd gan gynnwys gweithgareddau cymunedol ac addysg i oedolion. Mae hyn yn arbennig o wir yn Nolgellau o ystyried canlyniadau'r asesiad iaith gynhaliwyd ar y model hwn.

5.5.9. O ran rheolaeth yr ysgol, ceir cyfleoedd i uno cyrff llywodraethol a chyfleoedd o ran **materion cyllidol**. Byddai sgôp i wneud arbedion rheolaethol a dargyfeirio adnoddau. O dan y model yma, cyfyngedig fydd y cyfleon i wneud arbedion refeniw drwy'r fformiwla dyraniad. Byddai cyfleoedd i wneud gwell defnydd o'r dyraniad dderbynnir drwy gael trosolwg o'r gyllideb ar draws sectorau, a medru cyfeirio adnoddau yn unol a'r gofyn a'r galw angenrheidiol. Gall fodd cyfleoedd pellach am fân arbedion fel rhan o unrhyw gynllun cyfalaf fyddai yn rhan o'r cynllun yn y pendraw – ond y tebyg ydy mai bychan fyddai'r symiau hyn.

## 5.6. Canolbwynt addysg yn y dalgylch

5.6.1. Nodir isod rhai prif argymhellion ar gyfer y model gydol oes. Nodir mai argymhellion ydyw rhain ac y byddai rhai materion rheolaethol yn nwylo'r ysgol a'r llywodraethwyr yn y pendraw.

- Bydd y sefydliad yn cynnwys darpariaeth cynradd ac uwchradd ac o bosib darpariaeth meithrin.
- Un corff llywodraethol,
- Un arweinydd ar gyfer y sefydliad cyfan, gyda phenaethiaid sector cynorthwyol i gymryd cyfrifoldeb dros y sectorau cynradd ac uwchradd ac unrhyw gyfleusterau eraill ddarperir.
- Byddai datblygu cynllun partneriaeth cwricwlaidd dalgylchol cydlynnus rhwng y sefydliad cynradd ac uwchradd yn nhref Dolgellau, a holl ysgolion eraill cynradd y dalgylch yn sicrhau cyfle cyfartal i ddisgyblion oed cynradd y dalgylch.
- Bydd cydweithio rheolaethol mwy ffurfiol ar lefel dalgylch yn caniatáu i agweddau cwricwlaidd megis llythrennedd ac asesu yn ogystal ag agweddau rheolaethol gael eu cynnwys o fewn trefn gydlynus dalgylchol.
- Yn yr ail reng o reolaeth gellid sefydlu trefn o gyd gysylltwyr gyda chyfrifoldeb traws sefydliad ar agweddau megis Gofal Bugeiliol, Asesu neu Weithgareddau Cymunedol.
- Byddai'r ysgol yn cael ei hariannu fel bod modd dargyfeirio adnoddau yn unol â'r angen a blaenoriaethau yn lleol.

5.6.2. Byddai disgwyl i'r Ysgol Ddilynol gwmpasu'r dalgylch yn gyfan drwy gydweithio'n agos gydag holl ysgolion cynradd y dalgylch cyfan er mwyn iddynt fanteisio ar ddatblygiadau yn y dref ac arbenigeddau'r holl staff. Felly, o ran gweledigaeth nodir fod gweledigaeth i ddatblygu canolfan addysg ganolog yn nhref Dolgellau a hynny yng nghyd-destun datblygiadau eraill.

5.7. <u>Asesiadau o Effaith Ieithyddol a Chymunedol</u>

5.7.1. Yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad, comisiynwyd asesiadau o effaith ieithyddol, cymunedol a chydraddoldeb y modelau a ystyriwyd fel rhan o'r trafodaethau cychwynnol.

5.7.2. Mae'r Adroddiad Asesiad Ieithyddol yn nodi'r cefndir a bod y model a ffefrir, mewn gwirionedd, yn cynnal y status quo gyda chyfleon posib i ddatblygu sefyllfa'r Gymraeg.

5.7.3. Noda'r asesiad fod canran disgyblion ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn uwch nac o gartrefi Cymraeg, yn yr ysgol gynradd ac uwchradd ar hyn o bryd. Nodir fod defnydd cymdeithasol ac academaidd o'r Saesneg. Nodir defnydd helaeth o'r Saesneg yn gymdeithasol yn y Cynradd ac i raddau amrywiol yn yr Uwchradd. Noda canfyddiadau'r asesiad fod hyfedredd dwyieithog disgyblion Cynradd yn dda er bod carfanau ieithyddol disgyblion yn amrywiol – nodir bod diffyg defnydd o'r Gymraeg. O ran sefyllfa'r Gymraeg yn y ward/ cymuned, drwy'r asesiad nodir mai 'gweddol' yw sefyllfa'r Gymraeg.

5.7.4. Gan fod yr ardrawiad yn nodi fod y model yn parhau efo'r sefyllfa bresennol heb fawr o ardrawiad, argymhellir mesurau i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg drwy sefydlu'r model, ac o bosib yn cynnig cyfleon i herio sefyllfa sydd yn bodoli ar hyn o bryd er gwell, drwy sefydlu'r model Ysgol Ddilynol.

- Bugeiliaeth a rheolaeth drwyadl er mwyn cynnal ac atgyfnerthu'r sefyllfa gyfredol.
- Annog darpariaeth er mwyn trwytho plant cyn oed ysgol yn y Gymraeg.
- Mabwysiadu polisi ysgol lle byddai staff dysgu ac ategol yn dechrau a chynnal sgyrsiau'n Gymraeg â disgyblion er mwyn gosod a chynnal naws Gymreig a meithrin defnydd beunyddiol o'r iaith ymhlith disgyblion.
- Cynllun Datblygu Ysgol a chynlluniau gwaith i alluogi athrawon i osod modelau iaith cadarnhaol i ddisgyblion yn y dosbarth.
- Cymorthyddion amser chwarae a chinio i dderbyn hyfforddiant ar ddulliau cymell defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn modd hwyliog a chadarnhaol.
- Mabwysiadu gemau buarth i'w cynnal trwy'r Gymraeg.
- Cynnal cyfleoedd hamdden a chwaraeon trwy'r Gymraeg

5.7.5. Casgliadau yr asesiad effaith cymunedol o'r model I ydyw nodi na fyddai effeithiau na newidiadau mawr gan fod y model yn parhau â'r sefyllfa bresennol o ran presenoldeb darpariaeth addysg ar y ddwy safle yn

Nolgellau. Gwnaed asesiad cydraddoldeb cychwynnol. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai yn sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd ag hawliau cyfartal. Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol deuir i'r casgliad bod sicrwydd yr hyrwyddir cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal fydd yn monitro ac yn adolygu'r sefyllfa. Bydd angen cwblhau'r asesiad yn gyflawn, gyda'r agweddau ffydd unwaith deuir i gasgliadau ynglyn â natur a chategori cyfreithiol y sefydliad a ddatblygir.

## 6. Y DULLIAU O SEFYDLU'R YSGOL DDILYNNOL A'I CATERGORI/ STATWS CYFREITHIOL

6.1. Yn y rhan yma o'r adroddiad – atgoffir y Cabinet o'r opsiynau posib o ran symud ymlaen i sefydlu'r Ysgol Ddilynol yn Nolgellau ac oblygiadau posib rhai o'r opsiynau hynny ar statws y sefydliadau yn y pendraw. Yn ogystal, adroddir ar ganlyniadau trafodaethau a datblygiadau pellach gynhaliwyd gan amlinellu camau pendant ynglŷn a'r ffordd orau ymlaen.

6.2. Bydd mater technegol categori 'cyfreithiol' a chymeriad crefyddol dynodedig unrhyw sefydliad newydd i ddarparu addysg yn Nolgellau angen ystyriaeth fel rhan o unrhyw ymgynghoriad. Categori Ysgol Gynradd Dolgellau yw Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth â chymeriad grefyddol dynodedig . Categori cyfreithiol Ysgol Y Gader ydyw Ysgol 'Gymuned' heb ddynodiad crefyddol. Mae dynodiad crefyddol Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth yn bwysig o ran;

- Cymeriad yr ysgolion
- Aelodaeth o'r corff llywodraethu
- Perchnogaeth safleoedd

6.3. Yn unol â'r hyn diffinir yn Rheoliadau Ysgolion A Gynelir 2005, mae ysgolion Gwynedd yn cael eu diffinio fel rhai Cymunedol, Gwirfoddol Cymorthedig neu Wirfoddol dan Reolaeth. Ymhellach, gall Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig neu Wirfoddol dan Reolaeth gael eu dynodi â chymeriad crefyddol h.y. yn Ysgol Eglwysig Mae'r tabl canlynol yn dangos categorïau ysgolion Gwynedd a'r nifer disgyblion yn y categorïau hynny:

| **CATEGORI** | **CYNRADD** | | **UWCHRADD** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer o Ysgolion** | **Nifer Disgyblion** | **Nifer o Ysgolion** | **Nifer Disgyblion** |
| **Cymunedol** | 88 | 7,984 | 14 | 7,396 |
| **Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth *(VC)*** | 11 | 1,493 | 0 | 0 |
| **Ysgol Wirfoddol Gymorthedig *(VA)*** | 3 | 243 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | 102 | 9,720 | 14 | 7,396 |

6.4. O ran y sefyllfa yn Nolgellau, mae opsiynau posib i'w hystyried o ran mecanwaith ffurfio'r Ysgol Ddilynol ac oblygiadau'r mecanwaith hynny ar opsiynau categori 'cyfreithiol' a dynodiad cymeriad crefyddol y sefydliad arfaethedig yn y dref:

i. Sefydlu corff ffederal rhwng y Cynradd ac Uwchradd a fyddai yn fodd o gadw'r statws cyfreithiol presennol. (Sef statws Ysgol Gynradd Dolgellau yw Ysgol Eglwys yng Nghymru (Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth), a statws Ysgol Y Gader ydyw Ysgol 'Gymuned').

ii. Cau yr Ysgol Gynradd a'r Ysgol Uwchradd, eu hail agor, a'u cyfuno a gosod categori 'Cymuned' ar y sefydliad,

iii. Cau yr Ysgol Gynradd a'r Ysgol Uwchradd, eu hail agor, a'u cyfuno a gosod categori Ysgol Wirfoddol Gymorthedig dan Reolaeth (Yr Eglwysig yng Nghymru) ('Eglwysig') ar y sefydliad,

6.5. Mae nodweddion gwahanol y ddau statws cyfreithiol wedi eu nodi yn y tabl isod:

| | Categori Cymuned | Categori Eglwysig<br>(Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth a dynodiad crefyddol) |
|---|---|---|
| Perchnogaeth tir ac adeiladau'r ysgol | Awdurdod Lleol<br>Perchennog / deiliad safle ac adeiladau'r ysgol yw'r Awdurdod lleol. | Yr Awdurdod Lleol yn denanti'r corff crefyddol (yr Esgobaeth fel arfer) |
| Cyfrifoldeb am gyllido | Awdurdod Lleol | Awdurdod Lleol |
| Cyfrifoldeb am gyflogi staff a phenodi | Awdurdod Lleol<br>Ni cheir rhoi blaenoriaeth ar sail ffydd. | Awdurdod Lleol<br>Wrth benodi Pennaeth – byddai gan y Corff Llywodraethu hawl i ofyn i'r Pennaeth a fyddai yn cefnogi a datblygu cymeriad Gristnogol yr ysgol |
| Cyfrifoldeb am wasanaethau ategol | Awdurdod Lleol | Awdurdod Lleol |
| Polisi Mynediad | Awdurdod Lleol | Awdurdod Lleol |
| Cyfansoddiad y Corff Llywodraethu | Yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion ( Cymru) 2005 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 cynrychiolaeth rhieni, Awdurdod Addysg, Athrawon, Staff , Cymunedol a Chyngor Cymuned | Yn unol â Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Cymru 2005 - Cynrychiolaeth rhieni, Awdurdod Addysg, Athrawon, Staff , Cymunedol a Chyngor Cymuned a Llywodraethwyr a benodir gan yr Eglwys |
| Cyd addoli | Bodloni gofynion deddfwriaethol ar gyfer cydaddoli yn feunyddiol. Y weithred o addoli fod o natur Gristnogol yn gyfan gwbl neu yn bennaf. | Bodloni gofynion deddfwriaethol ar gyfer cydaddoli yn feunyddiol.<br>Bydd yr addoliad o natur Gristnogol unai yn gyfan neu yn rhannol a gall gynnwys elfennau o addoli gan y corff crefyddol |
| Cwricwlwm ac Addysg Grefyddol | Addysg Grefyddol yn faes o fewn cwricwlwm yr ysgol.<br>Maes llafur addysg grefyddol y cytunir arno yn lleol trwy CYSAG | Addysg Grefyddol yn rhan o'r cwricwlwm<br>Bydd gwerthoedd Cristnogol yn rhan o gwricwlwm yr ysgol a rhan bwysig o fywyd yr ysgol.<br>Maes llafur addysg grefyddol y cytunir arno yn lleol trwy CYSAG.<br>Wedi ymgynghoriad a phleidlais democrataidd gan rhieni / Gofalwyr gallent ofyn i'r ysgol defnyddio cwricwlwm Addysg Grefyddol corff crefyddol. |
| Arolygiadau | Arolygiad gan Estyn yn unig. | Arolygiad gan Estyn. O dan Adran 50 Deddf Addysg 2005 y corff llywodraethu a chrefyddol sydd yn gyfrifol am adolygu cymeriad Crefyddol ac addoli'r ysgol. |

## 7. OPSIWN O GREU SEFYDLIAD FFEDERAL

7.1. Mae opsiwn creu sefydliad ffederal rhwng yr ysgol gynradd ac uwchradd.

7.2. Mae ffedereiddio yn dibynnu ar gydsynio gwirfoddol rhwng cyrff llywodraethu'r ddwy ysgol bresennol, a'u cyfuno, a chreu un corff llywodraethol ffederal. Byddai rhaid gwneud hyn yn unol â gofynion cyfreithiol Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion. Wrth sefydlu model ffederal, byddai modd cadw statws cyfreithiol presennol y ddau sefydliad.

7.3. Rhai o nodweddion model ffederal yw bod:

- Modd gwneud gwell defnydd strategol o adnoddau ar draws y sefydliad ffederal.
- Cyfleoedd i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wrth rannu adnoddau rhwng ysgolion.
- Cyfleoedd i staff ysgolion weithio mewn mwy nag un ysgol er mwyn meithrin sgiliau a phrofiad newydd.
- Polisïau a gweithdrefnau cyson wedi'u seilio ar arfer da
- Tyfu dealltwriaeth llywodraethwyr o'r cyd-destun ehangach a chyfle i rannu arbenigeddau a sgiliau ystod ehangach o lywodraethwyr
- Y cyfle i rannu adnoddau ac osgoi dyblygiad a sicrhau arbedion.

7.4. Mae ffederasiwn o ysgolion yn medru cadw eu hunaniaeth unigryw ac yn aros o fewn eu cymunedau. Hefyd, bydd ysgolion ffederal yn gallu cynnal eu cyllideb ddirprwyedig, eu henw, eu cymeriad, eu gwisg ysgol a'u hethos eu hunain, ond byddant yn gallu ystyried manteision rhannu adnoddau megis cyfleusterau, TG, staff, ac asedau eraill. Byddai gan y corff llywodraethu newydd sengl a grëir drwy ffederasiwn drosolwg a chyfrifoldeb cyfartal dros bob ysgol yn y ffederasiwn.

7.5. Mae Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion presennol ffedereiddio ysgolion yn dibynnu ar gydsynio gwirfoddol rhwng cyrff llywodraethu'r ddwy ysgol bresennol, a'u cyfuno, a chreu un corff llywodraethol ffederal a phroses drylwyr i'w dilyn er mwyn creu'r ffederasiwn.

7.6. Rhan gyntaf o'r broses o greu sefydliad ffederal fyddai bod cyrff llywodraethu yn ystyried adroddiad ar y cynnig. Gallai'r ddau gorff gyhoeddi cynigion ar y cyd ar gyfer creu'r ffederasiwn. Os oes cytundeb i symud ymlaen a chynnig i ffedereiddio, yna byddai'n rhaid dilyn proses o ymgynghori.

7.7. Byddai'n rhaid i'r cynigion gynnig gwybodaeth benodol yn cwmpasu: enwau'r ysgolion dan sylw a chadarnhad bod y cyrff llywodraethu wedi penderfynu ffedereiddio; maint a chyfansoddiad arfaethedig corff llywodraethu'r ffederasiwn; trefniadau ar gyfer staffio'r ysgolion o fewn y ffederasiwn; y "dyddiad ffederaleiddio" a'r cyfnod ymgynghori (dim llai na chwe wythnos). Mae'r rheoliadau yn gosod yr anghenion ymgynghori ond mae'r broses yn seiliedig ar fudd–ddeiliad yr ysgol gan gynnwys yr Awdurdod Addysg , llywodraethwyr, staff a rhieni.

7.8. Byddai'n rhaid i'r cyrff llywodraethu sy'n cynnig ffederaleiddio ystyried ar y cyd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad wrth ddod i benderfyniad ffurfiol. Yna

byddai'n rhaid i'r Cyngor gwblhau'r broses gyfreithiol i ddiddymu cyrff llywodraethu'r ysgolion sy'n ymuno â'r ffederasiwn a gwneud offeryn llywodraethu newydd i ymgorffori corff llywodraethu ar gyfer y ffederasiwn; a fydd yn dod i rym ar y dyddiad ffederu. Wrth greu'r ffederasiwn byddai'r Corff Llywodraethu ffederal â statws corfforaeth yn yr un modd a chorff llywodraethol unigol. Bydd holl dir, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau'r ysgolion yn cael eu trosglwyddo i gorff llywodraethu'r ffederasiwn ac yn cael eu breinio iddo.

7.9. Dylai'r Cabinet fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl diddymu ffederasiwn, neu i ysgol unigol eithrio o'r trefniant ar unrhyw adeg. Byddai hyn yn ddibynnol ar gael nifer trothwy o lywodraethwyr, rhieni neu staff yr ysgol ysgogi hynny; neu'r awdurdod, neu ymddiriedolwyr unrhyw gorff sefydledig perthnasol sy'n gysylltiedig â'r ysgol e.e. yr Eglwys. Byddai'n rhaid ymgynghori gyda'r ystod arferol o gyrff sydd â diddordeb yn y cynnig: awdurdodau perthnasol, penaethiaid, staff, ymddiriedolaethau neu gyrff sefydledig sy'n gysylltiedig â'r ffederasiwn a phob rhiant a disgybl. Yn dilyn ymgynghoriad, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu ffederal ystyried y cais a phenderfynu naill ai ei dderbyn, ei wrthod neu ddiddymu'r ffederasiwn yn gyfan gwbl.

7.10. Er bod modd diddymu ffederasiwn nid yw yn debygol o fod yn ymarferol rwydd, ac mewn realiti yn gam mawr iawn i'w gymryd. Wrth sefydlu ffederasiwn o'r math yma byddai gwaith manwl wedi ei wneud, a chytundeb wedi ei gyrraedd rhwng yr ysgolion ar nifer o agweddau all atgyfnerthu'r trefniadau.

7.11. Bu cryn drafod ynglŷn a chael cytundeb llawn rhwng cyrff llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Y Gader ac Ysgol Gynradd Dolgellau. Ond ni ddaeth y ddau gorff i gydsynio i'r trefniant hwn yn unol â gofynion y rheoliadau sydd wedi bod yn weithredol hyd at nawr.

7.12. Hyd yma – o dan y rheoliadau a fu mewn grym rhaid oedd i'r cyrff llywodraethu wirfoddoli ac arwain ar y broses o sefydlu ffederasiwn. Bu cyfnod o drafodaethau yn ystod y flwyddyn diwethaf – ond ni fu modd symud ymlaen â'r broses hyd yma.

7.13. Mae Mesur Addysg 2010 yn darparu modd o greu Rheoliadau a fydd yn caniatáu i Awdurdod Addysg arwain, a chreu perthynas ffederal rhwng ysgolion. Ar hyn o bryd, nid yw'r Llywodraeth wedi dod a'r darpariaeth yma i rym. Yn absenoldeb hyn, a gwybodaeth ynglŷn a'r Rheoliadau fyddai eu hangen i'w gweithredu, ni ellir cynnig arweiniad pellach.

### 7.14. Ystyriaeth o'r opsiwn o Ffederaleiddio

7.14.1. O dan y rheoliadau presennol, mae cael cydsyniad y cyrff llywodraethu yn hanfodol i greu sefydliad ffederal. Ar hyn o bryd, o ganlyniad i drafodaethau cychwynnol gyda chynrychiolaeth o'r cyrff, mae ansicrwydd a fyddai cefnogaeth i'r egwyddor o gydsynio i'r trefniant hwn oherwydd pryderon ynglŷn â natur a chadernid y corff ffederal. Byddai llawer yn dibynnu ar ewyllys da'r corff ffederal i weithio tuag at greu sefydliad Dilyniannol cadarn, ond ceir pryderon yn sgìl y ffaith na fyddai corff ffederal yn cyfuno endidau'r sefydliadau yn llawn o gymharu â'r hyn fyddai yn digwydd drwy gau ac ail agor yr ysgolion ar ffurf endid newydd. Yn

ogystal, oherwydd natur model ffederasiwn - mae peth ansicrwydd yn bodoli oherwydd y gallu i ymwahanu a diddymu'r ffederasiwn ar unrhyw bwynt mewn amser yn ôl y rheoliadau ar hyn o bryd.

7.14.2. Byddai creu corff ffederal yn fodd o sicrhau categori cyfreithiol presennol y ddwy ysgol. Ond, heb gefnogaeth lawn y cyrff llywodraethu, nid oes modd i'r Awdurdod orfodi'r trefniant hyn o dan y rheoliadau presennol. Nodwyd fod Rheoliadau newydd yn yr arfaeth, ond nid yw eu manylion wedi eu cyhoeddi eto, ac ni ddeuant i rym am rai misoedd. Yn ddarostyngedig i fanylion y rheoliadau hynny, gallasai'r Cyngor, gyda chefnogaeth yr Eglwys, argymell ffederaleiddio'r ddau gorff llywodraethu. Ond nid yw hyn yn opsiwn ar hyn o bryd. Bernir nad dyma'r modd gorau o sefydlu'r strwythur ar gyfer rheolaeth effeithlon ar gyfer cryfhau'r ddarpariaeth yn nhref Dolgellau, o'i gymharu ag opsiynau eraill.

## 8. OPSIWN O GAU AC AIL AGOR

8.1. Pe sefydlir yr Ysgol Ddilynol drwy gau'r ddwy ysgol bresennol, a'u hail agor fel un ysgol byddai'r broses o gau ac ail agor yn ddarostyngedig i gynnal ymgynghoriad statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 fydd yn dod i rym yn yr Hydref.

8.2. Wrth sefydlu'r Ysgol drwy gau'r sefydliadau presennol a'u hail agor, byddai yn rhaid dewis categori cyfreithiol a dynodiad crefyddol posib ar gyfer y sefydliad newydd:

- Rhoi categori Gymuned, neu
- Rhoi categori Eglwysig
  - Categori Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth gyda dynodiad crefyddol neu
  - Ysgol Wirfoddol Gymorthedig gyda dynodiad crefyddol

8.3. Ar hyn o bryd categori Ysgol Gynradd Dolgellau yw Ysgol Eglwys yng Nghymru (Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth gyda dynodiad crefyddol) a chategori Ysgol Y Gader ydyw Ysgol Gymuned heb ddynodiad crefyddol. Ni thrafodwyd categori Ysgol Wirfoddol Cymorthedig (*Voluntary Aided*) mewn manylder gan nad ydyw yn gategori ru'n o'r ysgolion yn y dalgylch ar hyn o bryd. Byddai gosod y categori yma yn golygu rhai newidiadau pellach, er enghraifft; rheolaeth mynediad i'r ysgol a throsglwyddiad pherchnogaeth tir i'r Eglwys.

### 8.4. Ystyriaethau

8.4.1. Felly, mae opsiynau posib a grymoedd newydd y gellid eu hystyried er mwyn symud ymlaen i sefydlu'r Ysgol Ddilynol yn Nolgellau. Ond, yn ychwanegol, mae ffactorau pwysig eraill y dylid eu hystyried yn llawn cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y mater.

8.5. Anghenion Cyfreithiol

8.5.1. Wrth ystyried manylion technegol y mater, dylid rhoi ystyriaeth lawn i ganllawiau Llywodraeth Cymru. Dylai'r Cabinet fod yn ymwybodol fod Côd drafft newydd statudol sydd yn rhoi arweiniad manwl ynglŷn a'r broses trefniadaeth ysgolion, Côd Trefniadaeth Ysgolion. Daw'r còd i rym yn yr Hydref. Golygai hyn y byddai unrhyw ymgynghoriad statudol yn gorfod cael eu gweithredu o dan y Côd newydd hwn.

8.5.2. Yn achos ysgolion â nodwedd benodol, rhaid asesu'r galw am ddarpariaeth o'r fath yn yr ardal a darparu tystiolaeth ar ei gyfer. Rhaid ymdrin â'r sefyllfa yma yn briodol gan roi ystyriaeth i'r galw a'r dyhead yn lleol am addysg o gategori penodol. Mae'r Côd hefyd yn gosod gofyn, oherwydd statws Ysgol Wirfoddol a Reolir yr Ysgol Gynradd y bydd yr Awdurdod yn cynnal rhag ymgynghoriad gyda'r Eglwys cyn penderfynu'n derfynol symud ymlaen a'r broses ymgynghori statudol. Adlewyrchir hyn yn yr argymhellion.

8.6. Darpariaeth Eglwysig

8.6.1. Fel nodwyd eisoes, gyda'r opsiwn o gau ag ail-agor y sefydliadau presennol i greu'r sefydliad newydd, rhaid penderfynu ar gategori cyfreithiol i'r sefydliad newydd. Nodir uchod nodweddion y ddau gategori – Eglwysig neu Cymunedol – (gweler tabl yn adran 6.5).

8.6.2. Byddai yn rhaid asesu effaith o ran dewis o'r math o ddarpariaeth sydd ar gael gyda'r gwahanol opsiynau.

8.6.3. Mae trafodaethau gyda chynrychiolaeth yr Eglwys yng Nghymru yn Esgobaeth Bangor wedi mynegi pryder oni fyddai darpariaeth Eglwysig yn yr ardal. Dylai Aelodau'r Cabinet fod yn ymwybodol fod yr Eglwys yn ymgynghorai creiddiol yn y sefyllfa yma.

8.6.4. Pe byddai'r Ysgol Ddilynol yn Nolgellau yn ysgol categori Eglwys yng Nghymru, Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth gyda dynodiad crefyddol, golygai hyn mai sector Uwchradd Y Gader byddai'r cyntaf yng Ngwynedd gyda'r categori. Mae ysgolion uwchradd Eglwysig mewn Siroedd eraill, er enghraifft yn Wrecsam, ac mae tair ysgol uwchradd gan yr Eglwys yng Nghymru yn Ne Cymru.

8.6.5. Mae enghreifftiau o Ysgolion Gydol Oes Eglwysig yn Lloegr. Ymgynghorir ar hyn o bryd yn Sir Ddinbych ar gyfuno Ysgol Rhufeinig Gatholig 3 -16 St Bridget ac Ysgol Eglwys yng Nghymru.

8.6.6. Caiff nodweddion a rhinweddau addysg mewn ysgolion gyda dynodiad crefyddol wedi eu crisialu mewn dogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Llywodraeth – 'Ffydd Mewn Addysg' (**www.cymru.gov.uk**). Yn y ddogfen amlinellir nodweddion ysgolion â natur grefyddol gan nodi ethos a chymeriad yr ysgolion hyn.

8.7. Cyd-destun cynigion eraill yn y dalgylch yma a dalgylchoedd eraill

8.7.1. Wrth gwrs, rhaid ystyried cyd-destun y mater hwn o fewn trafodaethau eraill sydd yn cael eu cynnal ym maes ad-drefnu ysgolion. Mae cynnig ar gyfer rhan o ddalgylch Y Gader yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Ond, gan ystyried pa mor fregus yw ambell ysgol wledig yn yr ardal – rhaid cofio am y weledigaeth amlinellol ar gyfer y dalgylch, sef sicrhau cynaladwyedd a pharhad addysg yn yr ardal wledig a chryfhau'r ddarpariaeth drefol yn graidd darpariaeth addysg yn y dalgylch.

8.7.2. Rhaid cofio fod penderfyniad ynglŷn â sefyllfa yr unig Ysgol Eglwysig arall yn nalgylch Y Gader, Ysgol Machreth yn Llanfachreth wedi ei wneud (ond yn rhan o adolygiad ar hyn o bryd), a bod sefyllfa'r ysgol honno yn hynod fregus o ran niferoedd. Felly, rhaid cyplysu hynny gydag ystyriaethau eraill o ran dewis o ddarpariaeth – os oes galw am y dewis hynny yn yr ardal.

8.7.3. Rhaid cofio hefyd fod Ysgol Beuno Sant, sydd â chymeriad crefyddol dynodedig yn nalgylch y Berwyn wedi bod yn rhan o drafodaeth ad-drefnu yn nhref y Bala. Ynghlwm wrth y trafodaethau cychwynnol yn yr ardal hynny – trafodwyd y posibilrwydd y byddai'r categori 'Eglwysig' yn cael ei ddiddymu yno fel rhan o ddatblygiad y Campws Gydol Oes. Mae Esgobaethau Bangor a Llanelwy (sydd yn cynnwys ardal Bala) yn cydweithio, ac yn gweld dim rheswm pam na all darpariaeth Eglwys yng Nghymru gael ei gynnal yn ardal Bala/ Dolgellau o Feirionnydd. Rhaid cofio am y sefyllfa hon fel rhan o'r cyd-destun yn ogystal.

8.7.4. Felly wrth symud ymlaen gyda'r materion hyn ar hyd y daith, rhaid ystyried cyd-destun ehangach darpariaeth addysg â chategori Eglwysig yn yr ardal.

8.7.5. Yn nalgylch Y Gader mae mwyafrif o ysgolion cynradd dalgylch Y Gader gyda chategori "cymunedol heb ddynodiad cymeriad crefyddol. Mae'r ysgol gynradd fwyaf yn y dalgylch (sydd â 40% o'r disgyblion cynradd) gyda chategori Ysgol Gymorthedig a Reolir -'Eglwysig yng Nghymru' gydag chymeriad crefyddol dynodedig. Felly, rhaid ystyried beth fyddai barn rheini a phlant dalgylch Y Gader ynglŷn â'r posibilrwydd o fynychu sector uwchradd sydd â chymeriad crefyddol dynodiad. Yn wir, tybir byddai gwaith addysgu budd-ddeiliaid ehangach yn y dalgylch ynglŷn â beth fyddai hyn yn ei olygu, ac angen eu barn ar y mater.

8.8. Cyd-destun trafodaethau ehangach ar ddyfodol darpariaeth addysg ym Meirionnydd

8.8.1. Bydd Aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o'r drafodaeth ehangach sydd yn edrych ar ddyfodol darpariaeth addysg yn ehangach ym Meirionnydd – sydd yn cynnwys y sector uwchradd, a hynny yn wyneb gostyngiad sylweddol mewn niferoedd disgyblion ayyb. Bydd angen ystyried oblygiadau y mater penodol yma yn Nolgellau ar y drafodaeth drawsnewidiol ehangach.

## 8.9. **Crynodeb o'r materion technegol**

8.9.1. Gellir crynhoi'r materion sydd ynghlwm â'r opsiynau o ffurfio'r Gymuned Ddysgu Gydol Oes yn Nolgellau fel a ganlyn:

| Opsiwn | Pwy sy'n penderfynu? | Oblygiadau | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| **1 a)**<br>Cau ac agor gyda chategori CYMUNEDOL | Cyngor, - neu Gweinidog Llywodraeth Cymru<br><br>Ymgynghori Statudol | Yr Eglwys wedi awgrymu y byddai'n gwrthwynebu'r opsiwn hwn.<br>Ni fydd darpariaeth Eglwysig yng Nghymru yn Nalgylch y Gader ac o bosib ym Meirionnydd o gwbwl wedyn.<br>Nid oes rheidrwydd y byddai'r Esgobaeth yn rhyddhau rhan o safle'r Ysgol Gynradd ar gyfer yr ysgol newydd. | Byddai'r opsiwn yn golygu diddymu holl ddarpariaeth Eglwysig yn yr ardal. Yr Eglwys wedi awgrymu y byddai'n gwrthwynebu'r opsiwn hwn. |
| **1 b)**<br>Cau ac agor gyda chategori GWIRFODDOL a REOLIR (EGLWYS) | Cyngor neu Gweinidog Llywodraeth Cymru<br><br>Ymgynghori Statudol | Eglwys yn gefnogol ac yn ffafrio'r opsiwn hwn.<br>Corff Llywodraethu gydag hyd at 3 Llywodraethwr Sylfaenol wedi eu hapwyntio gan yr Esgobaeth yn cynnwys aelodau'r Eglwys. Byddai'r Eglwys a statws penodol o fewn penderfyniadau.<br>Byddai perchnogaeth yn trosglwyddo i'r Esgobaeth, ond nid y gwerth cyhoeddus (gwerth ariannol). Pe byddai'r safle yn cael ei werthu – byddai'r gwerth ariannol yn cael ei drosglwyddo nol i'r Awdurdod | Byddai'n golygu ymgymryd â phroses ymgynghori statudol<br>Nid oes unrhyw wybodaeth beth fyddai barn staff, rhieni a disgyblion dalgylch Y Gader o fynychu sector uwchradd â statws Eglwysig.<br>Hon fyddai enghraifft gyntaf yng Nghymru o sefydliad o'r strwythur yma. Byddai angen ystyried oblygiadau ar drafodaeth ar y sector uwchradd ym Meirionnydd |
| | | | |
| **2 a)**<br>Ffedereiddio RHEOLIADAU PRESENNOL | Cyrff Llywodraethu<br><br>Ymgynghoriad a budd-ddeiliaid penodol yn unol â Rheoliadau Ffederaleiddio Ysgolion a Gynhelir ( Cymru) 2010 | Mae'n rhaid i'r ddau gorff llywodraethu gytuno i ffedereiddio.<br>Byddai yn fodd o sicrhau'r statws cyfreithiol presennol sydd gan yr ysgol gynradd ac uwchradd<br>Yn syml mae'n golygu diddymu dau gorff llywodraethol a sefydlu un dros y ddau sefydliad.<br>Eglwys yn gefnogol. Mae'n rhaid i'r ddau gorff llywodraethu gytuno i wneud hyn. | Bydd yr ysgolion yn cadw eu statws presennol (Cynradd - Eglwysig ac Uwchradd yn Gymunedol).<br>Ni chafwyd cydsyniad gwirfoddol rhwng y cyrff llywodraethu er mwyn symud y mater yn ei flaen o dan y rheoliadau hyn. |
| **2 b)**<br>Ffedereiddio RHEOLIADAU ARFAETHEDIG (Mesur Addysg 2011) | Cyngor (ac yna Llywodraeth Cymru o bosib) | Eglwys yn gefnogol.<br>Yn lle bod y cyrff llywodraethu yn penderfynu parhau neu beidio gall yr awdurdod orfodi ffedereiddio. Fodd bynnag, byddai angen caniatâd yr esgobaeth i ffedereiddio ysgol Eglwysig drwy'r Mesur ar hyn o bryd | Gallai'r Cyngor roi cynnig ymlaen i ffedereiddio. Bydd yr ysgolion yn cadw eu statws presennol (Cynradd - Eglwysig ac Uwchradd yn Gymunedol).<br>Nid yw'r Ddeddfwriaeth mewn grym ar hyn o bryd |

8.9.2. Wrth gau yr ysgolion presennol a'u hail agor fel Ysgol Ddilynol byddai'n rhaid dilyn trefn ymgynghori statudol, nodir byddai'n rhaid penderfynu ar un statws cyfreithiol ar y sefydliad. Eglurir uchod oblygiadau gosod naill ai categori Cymuned neu Eglwysig ar y sefydliad. Er mwyn gwneud hyn, byddai'n rhaid asesu barn yn lleol ynglŷn â'r dewis, ond hefyd, byddai'n rhaid ystyried oblygiadau penderfyniad a wnaethpwyd gan y Cyngor yn rhannau eraill o'r dalgylch a thrafodaethau perthnasol mewn dalgylchoedd eraill.

8.9.3. Rhaid ystyried hefyd fod yr Eglwys wedi datgan ei barn yn gadarn ar y mater yma, ac wedi mynegi dyhead clir i sicrhau darpariaeth Eglwysig yn yr ardal.

8.9.4. Pe byddai'r Ysgol Ddilynol yn Nolgellau yn Ysgol Gymorthedig a Reolir - 'Eglwysig yng Nghymru' gydag chymeriad crefyddol dynodedig, byddai hyn yn torri tir newydd yng Ngwynedd drwy osod cymeriad crefyddol dynodedig ar elfen Uwchradd o'r sefydliad. Nodir nad oes gwybodaeth ynglŷn a beth fyddai barn rhieni a disgyblion gweddill dalgylch Ysgol Uwchradd Y Gader o fynychu sector uwchradd gyda chymeriad crefyddol dynodedig. Bydd modd cael barn yn ystod yr ymgynghoriad ar y ddau opsiwn. Bydd angen asesu a chael barn ar yr opsiynau yn llawn.

8.9.5. Mae angen ystyried oblygiadau hyn yn llawn yn sgìl trafodaethau ar y sector uwchradd ym Meirionnydd. Mae cyfeiriad y trafodaethau hyd yma yn mynd tuag at wireddu trefniadau o gydweithio agos rhwng rhai sectorau penodol – a bydd rhaid ystyried cyfeiriad y trafodaethau ehangach hyn ar y mater yma.

## 8.10. Casgliadau ar y mater technegol

8.10.1. Mater technegol ar ddull sefydlu'r Ysgol Ddilynol ydyw'r hyn drafodir yma. Rhaid ystyried yr effeithiau, ac oblygiadau newid categori cyfreithiol posib ddaw yn sgìl hynny.

8.10.2. Mae'r opsiwn o ffurfio'r sefydliad drwy ffederasiwn wedi ei drafod dros gyfnod o amser – ond nid oes consensws wedi ei ddatblygu ynglŷn â hynny. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r grymoedd newydd arfaethedig fyddai ganddo i greu ffederasiwn – ond nid oes sicrwydd ynglŷn ag amserlen gweithredu'r grymoedd hyn. Bernir y byddai creu'r sefydliad drwy gau ac ail agor yn ddull di-amwys ac yn fodd eglur a chlir o wireddu'r model a ffefrir a thrwy hynny greu sefydliad cadarn.

8.10.3. Tra fod model Ysgol Ddilynol yn fodel argymhellir fel rhan o'r cynnig yma, mae opsiwn yn parhau ynglŷn a phun a'i Ysgol Ddilynol Gymuned neu Ysgol Ddilynol Eglwysig. Mae'r Cyngor yn nodi arweiniad y còd ymgynghori arfaethedig sydd yn nodi;
*'O dan rai amgylchiadau, efallai y bydd cynigwyr o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori ar amrywiaeth o opsiynau yn hytrach nag un cynnig penodol',*

8.10.4. Bernir fod y sefyllfa yma yn un ble mae yn briodol ymgynghori ar ddau opsiwn, a hynny fel modd o sicrhau fod budd-ddeiliaid yn cael gwybod am

yr opsiynau yn llawn a mynegi barn a sylwadau ar hynny. Bydd hyn yn fodd hefyd i gasglu gwybodaeth a barn cyn dod i gasgliad terfynol ar ôl yr ymgynghoriad.

## 9. OPSIYNAU BUDDSODDI

9.1. Mater arall i'w ystyried ydyw'r opsiynau buddsoddi i wireddu'r argymhelliad. Fel rhan o gais y Cyngor am arian drwy Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain, mae gan y Cyngor amlen o arian ar gyfer y dalgylch. Byddai rhaid gwneud cais am unrhyw gynnydd yn y swm, neu yn golygu dargyfeirio adnoddau oddiwrth gynlluniau eraill, neu wneud cais am arian ychwanegol.

9.2. Dyma'r math o opsiynau posibl a drafodwyd fel cynlluniau buddsoddi fel rhan o'r datblygiad:

i. Sefydlu Cymuned Ddysgu Gydol Oes aml-safle heb ddim buddsoddiad cyfalaf o gwbwl.

ii. Buddsoddi i wneud gwelliannau ar gyfer safle presennol yr Ysgol Gynradd

iii. Ail-gyfeirio adnoddau neu wneud cais o'r newydd i ddatblygu darpariaeth ar safle ysgol Y Gader ar gyfer Cyfnod Allweddol 2

9.3. Mae'r dewisiadau hyn yn cael eu pwyso a mesur isod.

9.4. <u>Sefydlu Ysgol Ddilynol aml-safle heb ddim buddsoddiad  cyfalaf</u>

9.4.1. Golygai'r opsiwn hwn y byddai Ysgol Ddilynol yn cael ei datblygu, ond na fyddai unrhyw welliannau cyfalaf tu hwnt i waith cynnal a chadw arferol. Gallasid mynd ymlaen gyda newid statws yr ysgol a newid ffurf yr arweinyddol, llywodraethol, cyllidebol ac addysgol hyd yn oed gyda'r opsiwn hwn. Wrth gwrs, wrth beidio buddsoddi – byddai diffygion y sefyllfa bresennol yn parhau.

9.4.2. Cafwyd barn yn lleol fod angen sicrhau buddsoddiad ar gyfer addysg yn nhref Dolgellau er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol. Noda'r Strategaeth Ad-drefnu fod angen sicrhau darpariaeth gynaliadwy ac o safon dderbyniol ar ôl y broses ad-drefnu.

9.5. <u>Datblygu safle presennol Ysgol Gynradd Dolgellau.</u>

9.5.1. Yn ystod trafodaethau'r dalgylch amlygwyd pryderon ynglŷn a safle Ysgol Gynradd Dolgellau. Nodwyd y diffygion canlynol:

- Problemau traffig a pharcio
- Neuadd a ffreutur is-safonol
- Cyfleusterau is-safonol
- Diffyg gofod adnoddau dysgu hyblyg
- Diffyg adnoddau staff
- Safle wedi ei rannu yn ddwy

9.5.2. Fel rhan o'r opsiwn hwn byddai modd datblygu a buddsoddi yn y safle i wella'r sefyllfa bresennol, os yn bosib, o ran;

- System drafnidiaeth a pharcio ger yr ysgol
- Gwella'r cyswllt rhwng y ddwy safle
- Sicrhau fod y gofod dysgu yn fan hyblyg o ran maint i'r dyfodol
- Neuadd a ffreutur bwrpasol
- Toiledau newydd
- Gofod adnoddau dysgu
- Gofod adnoddau staff

9.5.3. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu fod modd rhesymoli rhai o'r darpariaethau gaiff eu dyblygu ar hyn o bryd ac hefyd yn fodd o wella'r amgylchedd ddysgu, ac felly yn arwain at effeithiau cadarnhaol ddaw yn sgil hynny. Wrth wneud y gwelliannau, byddai modd ymgiprys ag anghenion gwario presennol o ran ôl groniad cynnal a chadw, rhagofalon tân a gofynion addasrwydd sydd ar y safle.

9.5.4. Nodir y byddai angen gwaith pellach ar opsiynau datblygiad posib ac angen cynnal trafodaethau ar faterion perchnogaeth tir ar y safle gan mai'r Esgobaeth sydd yn berchennog ar ran o'r safle.

9.6. <u>Datblygu safle presennol ysgol Y Gader i dderbyn oedrannau Cyfnod Allweddol 2  Ysgol Gynradd Dolgellau gan adael y Cyfnod Sylfaen ar safle presennol ysgol gynradd Dolgellau.</u>

9.6.1. Awgrym arall wnaethpwyd yn ystod y trafodaethau oedd edrych a fyddai modd datblygu safle presennol ysgol Y Gader i dderbyn Cyfnod Allweddol 2 sydd ar hyn o bryd ar safle'r Ysgol Gynradd Dolgellau yr ochr arall i'r dref (gyda'r opsiwn hefyd o ddatblygu'r safle ar gyfer y Cyfnod Allweddol ar draws y dalgylch i'r safle).

9.6.2. Nodwedd y cynllun hwn fyddai medru lliniaru pryderon y cyfnod trosiannol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd all fod yn heriol i blant lle mae cyrhaeddiad yn gyffredinol yn gwaethygu yn ystod y cyfnod hwn. Wrth gwrs gellid dadlau byddai'r symudiad hwn yn creu cyfnod trosiannol o'r newydd rhwng Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2.

9.6.3. Byddai'r datblygiad hwn yn golygu datblygu adeilad o'r newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 ar safle presennol Ysgol Y Gader. Byddai gwelliannau parcio a mynediad yn gorfod bod yn rhan fawr o'r cynllun.

9.6.4. Byddai cyfran helaeth o fuddsoddiad at wella trefniadau traffig yn hytrach nac ar wella darpariaeth ddysg. O'r ffigyrau gyfeiriwyd atynt tua 18 mis yn ôl (tua £4.5m), byddai angen gwneud cais am fwy o arian cyfalaf neu ystyried dargyfeirio adnoddau oddi ar gynlluniau eraill.

9.6.5. Nodir pryderon ynglŷn â'r opsiwn yma, oherwydd;

- Pryderon o rannu'r cyfnodau dysgu yn yr oedran cynradd a fyddai yn creu rhaniad a chyfnod trosglwyddo newydd i blant llawer ieuangach,
- Pryderon ymarferol datblygu safle'r Gader.

- Ansicrwydd a phroblemau hefyd pe byddai'r opsiwn yn cynnwys neu ddim yn cynnwys disgyblion o'r ardaloedd gwledig.
- Byddai rhan sylweddol o'r gwariant ar wella materion traffig yn hytrach nag ar wella darpariaeth addysg.
- Pryderon ynglŷn ag amserlen unrhyw gais am arian ychwanegol

9.7. Asesu'r opsiynau buddsoddi

9.7.1. Mae'r opsiynau o ran buddsoddiad wedi cael eu hasesu, Mae manylion yr asesiad yn Atodiad 3 gyda chryfderau a gwendidau a chyfleon a phroblemau yn cael eu nodi.

9.7.2. Gan fod yn rhaid sicrhau fod unrhyw fuddsoddiad yn uchafu gwerth – bernir mai'r opsiwn a fyddai yn cyfrannu orau er lles addysg disgyblion fyddai cynllun i wella'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Gynradd Dolgellau. Byddai cyfran helaeth o'r arian fuddsoddir yn cyfrannu tuag at wella'r ddarpariaeth addysg ac yn fodd o gryfhau'r ddarpariaeth addysg yn nhref Dolgellau.

9.7.3. Argymhellir y bydd angen gofyn i'r Cabinet gymeradwyo datblygu cynllun i sicrhau gwelliannau i safle presennol Ysgol Gynradd Dolgellau fel a nodwyd uchod.

## 10. I GRYNHOI

10.1. Felly, yr argymhelliad ar gyfer ysgolion tref Dolgellau yw dirprwyo hawl i'r Aelod Cabinet Addysg,- yn ddarostyngedig i ofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, i gychwyn a chynnal proses ymgynghoriad ar gynnig i gau Ysgol Gynradd Dolgellau ac Ysgol Uwchradd Y Gader gan sefydlu Ysgol Ddilynol ar gyfer disgyblion 3 i 16 oed. Golygai hyn y byddai gan yr ysgol un Pennaeth, un corff llywodraethu ac un gyllideb. Rhinweddau'r cynnig hwn ydyw creu canolbwynt addysgol i oedrannau 3 i 16 yn y dalgylch a chreu cyfleon ar gyfer cydweithio a rhannu arbenigeddau a sgiliau ar draws y dalgylch cyfan. Byddai'n hanfodol i bob ysgol yn y dalgylch - yn nhref Dolgellau a'r ardal wledig o'i chwmpas gael cyfle i fanteisio ar rinweddau'r model hwn a chyfle i gryfhau'r ddarpariaeth addysg ar gyfer y dyfodol ar gyfer y dalgylch cyfan.

10.2. Tra fod model Ysgol Ddilynol yn fodel argymhellir ar gyfer ymgynghori, mae'r cwestiwn ynglŷn a chategori y model a gyflwynir sef Ysgol Ddilynol Gymuned neu Ysgol Ddilynol Eglwysig i'w ymgorffori yn yr ymgynghoriad.

10.3. Bernir fod y sefyllfa yma yn un ble mae yn briodol ymgynghori'n statudol ar ddau opsiwn, a hynny fel modd o sicrhau fod budd-ddeiliaid yn cael gwybod am yr opsiynau yn llawn a mynegi barn a sylwadau ar hynny. Bydd hyn yn fodd hefyd i gasglu gwybodaeth a barn cyn dod i gasgliad terfynol ar gyhoeddi rhybuddion wedi'r ymgynghoriad.

10.4. Fel rhan o'r cynnig hefyd, argymhellir gofyn i'r Cabinet gymeradwyo datblygu cynllun i sicrhau gwelliannau i safle presennol Ysgol Gynradd Dolgellau fel a nodwyd uchod.

## 11. CAMAU NESAF

11.1. Os bydd y Cabinet yn cefnogi'r argymhelliad yma i ymgynghori ar y cynnig i sefydlu Ysgol Ddilynol yn nhref Dolgellau – rhagwelir y bydd modd cynnal ymgynghoriad wedi i'r rheoliadau ymgynghori newydd ddod i rym yn yr Hydref. Fel eglurwyd, bydd y Côd newydd ar drefniadaeth ysgolion yn gosod fframwaith o amserlen ar gyfer gweddill y broses. Un o'r camau nesaf yn y broses yma fydd yn rhaid ei dilyn fel a nodir yn y Côd newydd ydyw;
"*Yn achos cynigion i ad-drefnu ysgolion y mae tir a/neu adeiladau'n cael eu dal ar ymddiried, neu ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig, **rhaid** i'r cynigydd gynnal ymgynghoriad â'r ymddiriedolwyr a/neu'r corff crefyddol priodol cyn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori. **Rhaid** i'r cynigydd ganiatáu 28 diwrnod ar gyfer sylwadau a **rhaid** iddo roi sylw priodol i'r sylwadau hyn cyn gwneud unrhyw benderfyniad i gynnal ymgynghoriad cyffredinol.*"

11.2. Yn y cyfamser, bwriedir symud ymlaen â thrafodaethau gydag Aelodau Lleol ar gynlluniau yn ymwneud â gweddill y dalgylch gan gynnal cyfarfod o'r Panel Dalgylch o'r cynrychiolwyr lleol yn fuan yn y flwyddyn addysgol newydd.

## 12. ARGYMHELLION

12.1. Cymeradwyo'r weledigaeth fel y cyfleir yn adran 3.

12.2. Dirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet Addysg benderfynu ar gynnal proses ymgynghori statudol yn seiliedig ar gynnig i sefydlu Ysgol Ddilynol yn nhref Dolgellau yn unol a'r adroddiad gan gynnwys ymgynghori ynglyn a chategori cyfreithiol posib yr Ysgol Ddilynol; Cymunedol ynteu Ysgol Gymorthedig a Reolir – gyda chymeriad grefyddol ddynodedig (Eglwys yng Nghymru), gan ddal sylw at ofynion y Côd Trefniadeth Ysgolion arfaethedig, cynnal rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru, ac ymateb i ganlyniad y rhag-ymgynghoriad.

12.3. Datblygu opsiynau ac achos busnes cadarn i ddatblygu safle Ysgol Gynradd Dolgellau fel rhan o geisiadau'r Cyngor yn Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain Llywodraeth Cymru.

Barn y Swyddogion Statudol:

1. Prif Weithredwr:

“Mae nifer o ystyriaethau gwahanol sydd angen sylw yma, o ran cyfeiriad datblygiadau addysgol i’r dyfodol i gynnal a gwella’r ddarpariaeth addysgol i blant yr ardal, strwythur hynny, dynodiad ysgolion unigol ac eiddo, nid yn unig yn Nolgellau ond yn ehangach drwy’r dalgylch. Mae’r argymhellion sydd gerbron yn cynnig ffordd ymlaen. Ffactorau pwysig iawn yn y cyd-destun hwn yw’r adnoddau ariannol ar gyfer unrhyw ddatblygiadau / welliannau yn y dalgylch, sydd yn amlwg yn ddibynnol ar yr adnoddau Ysgolion 21ain ganrif a’r pwysau refeniw cynyddol ar gyllideb y Cyngor yn gyffredinol a’r gyllideb Addysg.”

2. Swyddog Monitro:

"Cadarnhaf y cafwyd mewnbwn cyfreithiol i’r adroddiad hwn ac nad oes materion o briodoldeb yn codi.”

3. Prif Swyddog Cyllid:

“Mae swmp yr adroddiad yn trin agweddau addysgol a thechnegol o drefniadaeth ysgolion yn nhref Dolgellau. Ynddo’i hun, ni fyddai sefydlu’r ‘ysgol ddilynol’ yn cynnig arbedion refeniw o sylwedd, er byddai budd i’r sir o ddenu buddsoddiad cyfalaf (hwb i’r economi leol a sicrhau ased defnyddiol). Yn yr hinsawdd ariannol digynsail cyfredol, gyda phosibilrwydd na fydd amddiffyniad i’r gyllideb ysgolion yn y blynyddoedd nesaf, byddai’n fuddiol pe bai modd prysuro ystyriaeth o’r dalgylch ehangach lle gallasai’r prosiect yma sicrhau arbedion effeithiolrwydd fyddai’n helpu i isafu’r toriadau cyllidebol”.